# Cyngor Cymuned Llandderfel

Crynodeb cyfarfod agored i drafod Cynllun Fferm Wynt Gaerwen,
nos Wener, Rhagfyr 2il 2022 yn Neuadd Bro Derfel.

Presennol: **Maldwyn Jones (cadeirydd), Eifion Davies (is-gadeirydd), Bethan Thomas, Gwenda Evans, Gwenda Morris, Gary Thomas, Dewi Pritchard, Eilir Rowlands, Rita Jones, Alwyn Jones, y clerc ac aelodau o'r cyhoedd.**
Ymddiheuriadau: **Iolo Evans, Gwynedd Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.**

1. Croeso.
**Cafwyd gair o groeso gan gadeirydd y Cyngor, Maldwyn Jones.**

2. Cyflwyno/Cyflwyniad gan gynrychiolwyr RWE.
**Cyflwynodd Eleri Davies o RWE ei chydweithiwr Arfon Edwards ac Angharad Davies o gwmni Cadno Communications sy'n gweithio ar ran RWE. Gan fod y cyhoedd wedi cael cyfle i weld yr wybodaeth am y cynllun o gwmpas y Neuadd awgrymwyd y gellir symud ymlaen at y cwestiynau.**

3. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.
**Gan fod cynifer o'r cyhoedd yn bresennol a chynrychiolwyr RWE dim ond gallu bod yn bresennol am awr, cytunwyd y byddair cynghorwyr ddim yn gofyn cwestiynau er mwyn i'r cyhoedd cael cyfle i ofyn eu cwestiynau hwy.**

4. Cwestiynau gan y Cyhoedd
**Materion a godwyd drwy gwestiynau'r cyhoedd:-**

| | **Cwestiwn** | **Ymateb RWE** |
|---|---|---|
| **1.** | **Pam adeiladu prosiectau ar y tir a difetha cefn gwlad pan all prosiectau alltraeth gynhyrchu mwy o ynni?** | **Mae RWE yn credu yn gryf mewn cael cyfuniad o brosiectau ar y tir ac alltraeth. Prosiectau alltraeth ydi'r gorau ond mae'r broses ymgynghori ayyb yn hirach.** |
| **2.** | **Faint o egni neith y cynllun ei gynhyrchu mewn blwyddyn?** | **Mae'r cynhyrchiad yn ganolradd, dros flwyddyn fydda nhw'n gweithio 80% o'r amser.** |
| **3.** | **A oes asesiadau sŵn yn cael ei wneud, mesur is-sain yn benodol? Tystiolaeth fod is-sain yn achosi problemau iechyd fel meigryn.** | **Mae yna Safonau Ewropeaidd bydd rhaid i'r cynllun gwrdd. Bydd ymgynghorwyr sŵn yn mesur sŵn cefndirol cyn cychwyn y prosiect a'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Bydd gwahanol lefelau ar gyfer y dydd a'r nos.** |

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **Pryd mae sylwadau'r gymuned am gael ei ystyried? Faint mae safbwynt bobl leol yn cyfri wrth i'r Arolygydd Cynllunio wneud ei benderfyniad?** | **Byddant yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad statudol flwyddyn nesa. Mi allith penderfyniad yr Arolygydd fydd unrhyw ffordd, mi all goruwchreoli penderfyniadau blaenorol, a'i gymeradwyo neu ei wrthod. Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gwneud y penderfyniad terfynol yn seiliedig ar argymhellion yr arolygydd cynllunio.** |
| **5.** | **Gronfa Gymunedol, sut fydd hyn yn gweithio?** | **Mi fydd y swm a maint yr ardal sy'n cael ceisio amdano yn cael yn cael ei benderfynu pan mae'r gwaith yn cychwyn. Nid RWE fydd yn penderfynu ar ba fath o brosiectau fydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i.** |
| **6.** | **A oes hyblygrwydd gyda lleoliad a maint y tyrbin, gosod rhai llai na 180m?** | **Heb edrych ar rhai llai na 180m, mae hyblygrwydd ynglŷn â lleoliad. Dyddiau cynnar ydi, angen edrych ar yr adroddiadau cynefin, gweledol ac ymgynghori gyda nifer o asiantaethau, Parc Cenedlaethol, Adnoddau Naturiol Cymru ayyb.** |
| **7.** | **A fydd iawndal am ostyngiad yn werth y tai cyfagos?**<br><br>**Cynigwyd y dylai bobl ofyn am werth eu tai rŵan.** | **Dim tystiolaeth fod gwerth tai yn disgyn gyda phrosiectau fel hyn felly bydd dim iawndal.**<br>**Croeso i chwi gyflwyno tystiolaeth ond dydi hyn chwaith ddim yn ystyriaeth cynllunio.** |
| **8.** | **Sut ddaeth RWE i geisio am y gwaith?** | **Mae Gaerwen o fewn ardal a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer gwynt yn 'Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040 Llywodraeth Cymru'. Y** |

| | | |
|---|---|---|
| | | tirfeddianwyr wedyn wnaeth agor y broses tendro, RWE oedd gan y tendr llwyddiannus. |
| 9. | Sut fydd y melinau gwynt yn cael eu cario i’r safle? | Mi fydd RWE yn edrych ar bob opsiwn, mae'n debygol y bydd y mynediad o'r A494 ond dim penderfyniad wedi ei wneud ar hyn o bryd. |
| 10. | Lle fydd y llinellau pŵer yn mynd? | Dal i drafod a’r National Grid gan fod y cysylltiad presennol 8km i ffwrdd. |
| 11. | Mi wnaeth y cwmni blaenorol gerdded i ffwrdd, pryd neith RWE wneud hyn? | Mi fydd RWE yn edrych ar yr holl adroddiadau a gwybodaeth ac os ydi'r rhain yn dangos fod y cynllun ddim yn ymarferol wedyn dyna pryd fydda nhw’n tynnu’n ôl. |
| 12. | Pryder am yr effaith ar gyflenwad dŵr i dai cyfagos?<br><br>Dydi 6 wythnos ddim yn ddigon o amser i bobl ddarllen dogfen mor bwysig.<br><br>Os bydd cerrig, pridd ayyb yn cael eu symud yn ystod y gwaith gall hyn effeithio’r water table ac achosi dŵr i lifo lawr yn wahanol i nawr, Beth mae RWE am neud am hyn?<br>Angen dod a’r arbenigwyr hydrolegol yma i ateb cwestiynau’r cyhoedd.<br><br>Os ydi’r cynllun yn effeithio ar gyflenwad dŵr tai cyfagos beth fydd RWE yn gwneud am hyn? | Bydd asesiad hydrolegol yn cael ei bwydo i mewn i’r Datganiad Effaith ac yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad llawn. Byddant yn cymryd samplau dŵr cyn cychwyn y gwaith ac yna yn ystod y gwaith i weld os oes unrhyw wahaniaeth. Bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro ac yn camu i mewn os bydd angen. Mae gwneud asesiad hydrolegol yn rheoliad a bydd 6 wythnos o ymgynghoriad statudol<br>Cytunodd RWE i ystyried ymestyn y cyfnod ymgynghori.<br>Wrth wneud eu gwaith bydd RWE yn gwneud eu gorau i liniaru unrhyw effeithio’n fel hyn.<br>Yn anffodus doedd yr arbenigwyr yn methu dod i’r cyfarfod heddiw.<br>Bydd rhaid i RWE ddatrys unrhyw broblem sy’n codi |

| | | |
|---|---|---|
| | | **a cheisio darganfod cyflenwad dŵr arall iddynt** |
| **13.** | **Neith RWE ariannu 3ydd arolwg annibynnol?** | **Na, neith RWE ddim neud hyn.** |
| **14.** | **Pryd fydd y trigolion yn cael atebion i'r cwestiynau a godwyd yn y cyfarfod?** | **Mis Ionawr gobeithio.** |
| **15.** | **Sut fydd y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod yn cael ei ystyried yn y broses?** | **Mi fydd yr wybodaeth yn cael ei fwydo i mewn i'r ymgynghoriad.** |

**Sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod:-**
**Llywodraeth Cymru sydd ar fai am gynnwys yr ardal yma fel ardal ddynodedig i gynllun fel hyn.**
**Dydi'r bobl leol ddim isio'r cynllun, nath y trigolion lleol ddim gwahodd RWE yma.**
**Byddai'n well codi melinau gwynt yn Lloegr lle mae'r angen am yr egni ond byddai fwy o wrthwynebiad felly dyna pam maen nhw di dod yma.**
**Ceisiadau cynllunio cyffredin i bobl leol yn cael ei gwrthod a phrosiectau mawr fel hyn yn cael ei annog gan y Llywodraeth.**
**Grŵp annibynnol wedi ei sefydlu 'Save Gaerwen' er mwyn gallu anfon barn yn uniongyrchol i'r Arolygydd Cynllunio.**
**Tudalen Facebook wedi cael ei sefydlu gyda dros 400 o aelodau, llawer o gwestiynau yn cael ei godi arno.**
**Cynlluniau alltraeth 2:1 mwy effeithiol na'r rhai ar dir ond ar dir yn rhatach. Cist Gymunedol i'r ddau fath o gynllun.**
**Pwy fydd ar eu hennill, y tirfeddianwyr, does gan neb ddiddordeb yn y Gist Gymunedol, dydyn ni ddim eisiau cael ein llwger gwobrwyo!**
**Pwy sydd eisiau twr 180m ar stepen eu drws, neb!**

5. **Ategodd y cadeirydd ei ddiolch i bawb am fynychu'r cyfarfod ac i swyddogion RWE am ateb y cwestiynau. Caewyd y cyfarfod am 8.15y.h**

*Bethan Jones,* Clerc